Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

Jane Hutt AC
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

28 Tachwedd 2012

Annwyl Weinidog,

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol – Ymchwiliad i Ystyriaethau Cydraddoldeb yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru**

Fel y byddwch yn ymwybodol, ym mis Hydref 2012, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i edrych ar ystyriaethau cydraddoldeb yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Prif ddiben y gwaith y hwn oedd cyfrannu gwybodaeth at waith y Pwyllgor o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwelliannau a wnaed i'r broses o asesu'r effaith ar gydraddoldeb, ac yn benodol yn y meysydd a ganlyn:

- Sefydlu Grŵp Cynghori'r Gyllideb ar Gydraddoldeb;
- Y gwaith a wnaed o ran edrych yn ôl ar y penderfyniadau a gymerwyd yn 2011-12 (fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb);
- Yr ystod o ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb;
- Y gwaith ymgysylltu a wnaed fel rhan o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb; ac
- Yr ymchwiliad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn y gyllideb.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn/Tel: 029 2089 8429
Ebost / Email : Communities.Equality&LocalGov@wales.gov.uk

Mae'r Pwyllgor yn deall bod cyflawni asesiad effeithiol o'r effaith ar gydraddoldeb yn broses sy'n cymryd amser, ac yn yr ysbryd hwnnw hoffai gynnig rhai argymhellion ar gyfer asesiad y flwyddyn nesaf, a hynny ar sail y dystioaleth a gafwyd gan:

- Y digwyddiad rhanddeiliaid;
- Y sesiwn ar ystyriaethau cydraddoldeb yng nghyllideb Llywodraeth Cymru;
- Y dystiolaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol fel rhan o'r broses o graffu ar y gyllideb; ac
- Y dystiolaeth a roddodd y Gweinidog yn ystod y sesiwn o graffu ar y gyllideb.

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yng nghyllideb ddrafft y flwyddyn nesaf:

- Gael ei gyhoeddi ar y cyd â'r gyllideb ddrafft er mwyn pwysleisio pwysigrwydd y ddogfen fel rhan o'r gwaith craffu ariannol;
- Mabwysiadu dull mwy systematig o asesu'r effaith ar gydraddoldeb, yn hytrach na chynnig naratif ynghylch sut y cafodd yr effaith ar gydraddoldeb ei asesu. Mae'r Pwyllgor yn rhagweld y dylai hyn gynnwys, ar gyfer bob cynnydd neu ostyngiad mewn dyraniadau:
    - Rheswm dros y newid;
    - Nodyn clir o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl y newid;
    - Tystiolaeth o'r ymgysylltu a gafwyd â'r grwpiau y gallai'r newid effeithio arnynt;
    - Cynlluniau i liniaru'r effeithiau negyddol;
    - Cynlluniau i fonitro gwir effaith y newid;
    - Y ffynonellau data a ddenfyddiwyd i asesu'r effeithiau posibl, ac unrhyw arbenigwyr yr ymgynghorwyd â hwy;
- Cynnwys asesiad o effaith gronnus yr holl newidiadau ar draws adrannau, fel nad yw asesiadau yn bodoli ar wahân;
- Rhoi rhagor o bwyslais ar gyllidebu ar sail rhyw;
- Rhoi syniad o sut yr ystyriwyd cydraddoldeb drwy'r holl broses cynllunio ariannol, fel bod yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn adlewyrchiad o'r gwaith hwnnw, yn hytrach na bod yn ddogfen adweithiol sy'n asesu'r effeithiau posibl ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud;
- Cynnwys copi o'r templad o'r asesiad a ddefnyddiwyd i adnabod yr effaith ar gydraddoldeb a chopïau o'r asesiadau eu hunain (a gafodd eu cyfeirio atynt yn y ddogfen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb);

- Cynnwys crynodeb o'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r broses o asesu'r effaith ar gydraddoldeb.

Elfen arall o allu'r Pwyllgor i asesu effeithiolrwydd polisïau a chyllidebau Llywodraeth Cymru yw'r gallu i gymharu anghydraddoldeb yn gyson o'r naill flwyddyn i'r llall. Yn yr asesiad nesaf, byddai'r Pwyllgor yn croesawu alinio cliriach rhwng y cynllun cydraddoldeb strategol a'r ymrwymiadau cydraddoldeb yn y Rhaglen Lywodraethu (a'r dangosyddion perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol) a'r camau yn y gyllideb sy'n adlewyrchu'r ymrwymiadau hynny.

Hoffwn bwysleisio eto farn y Pwyllgor y gwnaed nifer o welliannau mawr ac y dylid eich canmol am y cynnydd hwn. Gobeithiaf y bydd yr argymhellion hyn yn ddefnyddiol ichi a'ch swyddogion wrth i chi ystyried sut i ymdrin â'r mater hwn yn y dyfodol, er mwyn parhau â'r gwaith positif hwn.

Yn gywir

**Ann Jones AC / AM**
Cadeirydd / Chair